



Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Hysbyseb Swydd – Ail Hysbyseb

Dirprwy Glerc

Crynodeb Swydd

Math o gontract: Parhaol

Patrwm gweithio: Llawn Amser

Dyddiad Cychwyn Hysbysebu: 10fed o Fai 2022

Cyflog: LC2 band 18 – 23 (£25,419 - £28,226)

Categori'r swydd: Gweithredol

Lleoliad: Caernarfon

Dyddiad Cau'r Hysbyseb: 12.00 p.m., dydd Iau, 26ain o Fai 2022

Gwybodaeth Bellach

Bydd Dirprwy Glerc y Dref yn Swyddog o'r Cyngor ac yn absenoldeb Clerc y Dref (Swyddog Priodol) mae o dan ddyletswydd statudol i gyflawni'r holl swyddogaethau, ac yn arbennig i gyflwyno neu gyhoeddi'r holl hysbysiadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, gan Swyddog Priodol y Cyngor. Bydd Dirprwy Glerc y Dref yn gyfrifol am sicrhau bod swyddogaethau'r Cyngor fel awdurdod lleol yn cael eu cyflawni.

Disgwylir i Ddirprwy Glerc y Dref gynghori'r Cyngor ar, a chynorthwyo Clerc y Dref i lunio'r polisiâu cyffredinol i'w dilyn mewn perthynas â gweithgareddau'r cyngor a chynorthwyo i gynhyrchu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol. Bydd y sawl a benodir yn atebol i Glerc y Dref am reoli adnoddau'n effeithiol a bydd yn adrodd iddo yn ôl yr angen.

Bydd y gwaith yn cynnwys cynorthwyo efo cynhyrchu'r holl wybodaeth fydd ei hangen ar gyfer gwneud penderfyniadau ac i weithredu ar benderfyniadau. Bydd deilydd y swydd yn chwarae rhan allweddol o ran rhedeg gweithgareddau a swyddogaethau'r Cyngor Tref.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus efo profiad o ddarparu cefnogaeth weinyddol o safon uchel, ac efo sgiliau rhifedd, llythrennedd a chyfathrebu ardderchog (Cymraeg a Saesneg). Bydd angen medrusrwydd o safon uchel mewn TGCh a gweledigaeth i wneud defnydd pellach ohono yng ngweithgareddau'r Cyngor. Disgwylir y bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o ddelio gyda'r cyhoedd mewn modd proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar y ffôn.

Bydd presenoldeb mewn rhai cyfarfodydd gyda'r nos y Cyngor yn ofynnol.

Bydd y Cyngor Tref yn rhoi pob cefnogaeth i'r ymgeisydd llwyddiannus i ddatblygu'n broffesiynol.

Bydd y gallu i gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg ar Saesneg yn hanfodol.

Am becyn gwybodaeth, ffurflen gais , swydd ddisgrifiad a manylion personol, neu am sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Sion Wyn Evans , Clerc Cyngor Tref Caernarfon ar 01286 672 943 neu ar clercydref@cyngortrefcaernarfon.llyw.cymru

Dyddiad Cau – 12.00 p.m., dydd Iau, 26ain o Fai 2022

Dylai'r ffurflen gais ei hanfon at Sion Wyn Evans, Clerc y Dref, Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon, Adeilad yr Institiwt, Allt Pafiliwn, Caernarfon, LL55 1AS